

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 07/2011

www.cymru.gov.uk

Arolwg o Gyngorau Cymuned a Thref 2010: Adroddiad Ynghylch Canfyddiadau

Arolwg o Gyngorau Cymuned a Thref 2010: Adroddiad Ynghylch Canfyddiadau

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ian Jones

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5540

E-bost: ian.jones2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011

ISBN 978 0 7504 6121 4

© Hawlfraint y Goron 2011

Tabl cynnwys

Prif negeseuon	5
1. Cyflwyniad	9
1.1 Cefndir	9
1.2 Nodau ac amcanion y gwaith ymchwil	10
1.3 Methodoleg	11
1.4 Cyfradd ymateb	12
2. Proffil y cynghorau	14
2.1 Proffil y cynghorwyr	14
2.1.1 Cynghorwyr etholedig a chyfetholedig	15
2.1.2 Demograffeg y cynghorwyr	16
2.3 Oriau gwaith y clercc	16
2.4 Y cod ymddygiad enghreifftiol	17
2.5 Praesept y cyngor	17
2.6 Gwasanaethau ac amwynderau a ddarperir gan gynghorau	18
2.7 Y Gymraeg	19
3. Sgiliau a hyfforddiant	20
3.1 Pŵer Llesiant	21
3.1.1 At ba ddibenion y mae cynghorau'n rhagweld y byddent yn defnyddio Pŵer Llesiant?	21
3.1.2 Beth fyddai'n atal cynghorau rhag defnyddio Pŵer Llesiant?	23
4. TGCh a chyfathrebu	25
4.1 Gwefan y cyngor	25
4.2 Mynediad i TGCh	26

5. Ymgysylltu â chymunedau	28
5.1 Ymgysylltu â'r gymuned a'r weithdrefn gwyno	30
5.1.1 Sylwadau am y berthynas rhwng y cyngor a'i gymuned	30
6. Ymgysylltu ag awdurdodau unedol	33
6.1 Cytundebau siarter a chytundebau lefel gwasanaeth	34
6.2 Cyfethol aelodau i bwyllgorau'r awdurdod lleol	35
6.2.1 Sylwadau am y berthynas rhwng y cyngor a'r awdurdod unedol	36
7. Ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru	39
7.1.1 Sylwadau am y berthynas rhwng y cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru	40
Atodiad A: Holiadur	43

Rhestr o dablau a ffigurau

Tablau

Tabl 1.1	Ymatebion i'r arolwg yn ôl awdurdod unedol	13
Tabl 2.1	Gwasanaethau ac amwynderau a ddarperir gan gynghorau	19
Tabl 4.1	Beth sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor?	25
Tabl 4.2	Y rhesymau pam nad oes gan gynghorau wefan	26
Tabl 5.1	Y rhesymau mwyaf cyffredin sy'n peri i aelodau'r gymuned gysylltu â'r cyngor	29
Tabl 5.2	Y dulliau mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan aelodau'r gymuned i gysylltu â'r cyngor	29

Ffigurau

Ffigur 2.1	Nifer y cynghorwyr	14
Ffigur 2.2	Cyfran y cynghorwyr etholedig	15
Ffigur 2.3	Cyfran y cynghorau sy'n hysbysebu lleoedd gwag ar gyfer aelodau cyfetholedig	15
Ffigur 2.4	Oriau gwaith wythnosol y cleric	16
Ffigur 2.5	Praesept y cyngor ar gyfer 2010-11	18
Ffigur 3.1	Sgiliau a hyfforddiant mewn cynghorau cymuned a thref	20
Ffigur 3.2	A fyddai eich cyngor yn mynd ati i ddefnyddio Pŵer Llesiant pe bai'r pŵer hwnnw'n cael ei roi i gynghorau cymuned a thref?	21
Ffigur 4.1	Y mynediad sydd gan gynghorau i TGCh	27
Ffigur 5.1	Y modd y mae cynghorau cymuned a thref yn ymgysylltu â chymunedau	28
Ffigur 6.1	Y modd y mae cynghorau cymuned a thref yn ymgysylltu ag awdurdodau unedol	34
Ffigur 7.1	Y modd y mae cynghorau cymuned a thref yn ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru	40

Prif negeseuon

Proffil y cynghorau

- Roedd nifer y seddi ar bob cyngor cymuned a thref yn amrywio o chwe sedd neu lai (mewn 4 y cant o'r cynghorau) i 20 neu fwy (mewn 2 y cant o'r cynghorau). **Ar gyfartaledd, roedd 11.3 o seddi ar bob cyngor.**
- Mae demograffeg y cynghorwyr yn dangos bod anghydbwysedd cyffredinol o hyd rhwng dynion a menywod. Mae **saith o bob deg cynghorydd yn ddynion**, sy'n debyg i'r gyfran a gofnodwyd yn 2002.
- Roedd gan 6 y cant o'r cynghorau aelodau ifanc (rhwng 16 a 25 oed).
- Roedd 6 y cant o glercod y cynghorau'n gweithio'n llawn amser, ac roedd 56 y cant ohonynt yn gweithio 10 awr neu lai yr wythnos.
- **Mae bron iawn pob cyngor wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad enghreifftiol.** Dim ond pedwar o'r cynghorau a ymatebodd sydd heb ei fabwysiadu.
- Roedd praeseptau'r cynghorau cymuned a thref yn 2010-11 yn amrywio'n sylweddol o £0 i £913,610. Roedd y praesept cyfartalog (canolrifol) ar gyfer 2010-11 yn **£13,300**.
- Y gwasanaethau a'r amwynderau mwyaf cyffredin a ddarparwyd gan gynghorau cymuned a thref oedd grantiau (63 y cant) a meysydd chwarae, manau agored, meysydd pentref neu dir comin (59 y cant).

Sgiliau a hyfforddiant

- Mae oddeutu **un o bob tri o'r cynghorau'n cefnogi'r syniad o gael cynllun achredu** i gynghorau cymuned a thref.

- Roedd oddeutu traean o'r cyngorau'n cytuno bod eu cyngorwyr yn mynd ar gyrsiau hyfforddiant yn rheolaidd, ac adroddodd tri o bob deg o gyngorau bod ganddynt gyllideb ar gyfer hyfforddiant.
- Dywedodd dros dri chwarter y cyngorau y byddent 'yn bendant' neu 'yn debyg' o ddefnyddio Pŵer Llesiant pe bai'r pŵer hwnnw'n cael ei roi i gyngorau cymuned a thref. O'r sawl a fyddai 'yn annhebygol' o ddefnyddio Pŵer Llesiant neu a ddywedodd 'yn bendant' na fyddent yn ei ddefnyddio, un o'u prif bryderon oedd diffyg adnoddau ariannol.

TGCh a chyfathrebu

- **Dywedodd tua hanner y cyngorau fod ganddynt wefan (47 y cant).** O'r rheini sydd heb wefan, roedd tua'r hanner ddim yn teimlo ei fod yn flaenoriaeth, tra bod yr hanner arall heb neb i gynnal gwefan.
- Roedd gan saith o bob deg cyngor fynediad i'r rhyngwyd, ond nid oedd gan un o bob ugain fynediad i gyfrifiadur, argraffydd neu'r rhyngwyd.

Ymgysylltu â chymunedau

- At ei gilydd, roedd y cyngorau'n gadarnhaol ynghylch y modd y maent yn ymgysylltu â'u cymunedau, ac roedd **naw o bob deg ohonynt yn cytuno bod ganddynt berthynas dda â'r gymuned.**
- Adrodd ynghylch problemau yn lleol a thrafod materion cynllunio yw'r prif resymau sy'n peri i aelodau'r gymuned gysylltu â'u cyngor. Ffonio oedd y dull mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd gan aelodau'r gymuned i gysylltu â'r cyngor.
- Roedd teimlad cryf ymysg llawer o'r cyngorau cymuned llai o faint bod y berthynas dda yr oeddent o'r farn ei bod yn bodoli rhyngddynt a'u

cymuned yn deillio o'r ffaith bod y gymuned yn un 'glòs', a'r ffaith bod y cyngorwyr yn hawdd mynd atynt ac yn hawdd siarad â hwy.

- Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch y ffaith nad oedd aelodau'r gymuned yn aml yn gwybod beth oedd gwahanol gyfrifoldebau'r cyngor cymuned neu dref a'r cyngor sir.

Ymgysylltu ag awdurdodau unedol

- Tri chwarter y cyngorau'n cytuno bod ganddynt berthynas dda â'u hawdurdod unedol. Fodd bynnag, chwarter ohonynt yn anghytuno â'r datganiad 'mae'r awdurdod unedol yn ystyried sylwadau ein cyngor ynghylch ceisiadau cynllunio'.
- Roedd oddeutu **dwyrain o dair o'r cyngorau'n gweithio tuag at sefydlu cytundeb siarter** â'r awdurdod unedol.
- Roedd gan 16 y cant o'r cyngorau gytundeb lefel gwasanaeth.
- Roedd gan oddeutu chwarter o'r cyngorau aelodau a oedd wedi'u cyfethol i bwyllgorau'r awdurdod lleol.
- Nodwyd bod fforymau cyngorau cymuned yn ffordd gadarnhaol i'r cyngorau a'r awdurdod unedol ymwneud â'i gilydd, yn yr un modd ag yr oedd cael cyngorwyr sir yn mynychu cyfarfodydd cyngorau cymuned, a gwaith swyddogion cyswllt y cyngor sir.
- Cwyn gyffredin gan gyngorau cymuned a thref oedd eu bod yn teimlo bod **awdurdodau unedol yn araf yn ymateb i ohebiaeth gan gyngorau**, er y gallai hynny amrywio rhwng gwahanol adrannau yn yr un awdurdod unedol.

Ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Roedd y cwestiynau ynghylch ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi arwain at gyfran eithaf uchel o ymatebion niwtral.
- Roedd llawer o'r feirniadaeth yn ymwneud â'r modd yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori â chynghorau. Yn benodol, teimlwyd **nad oedd cynghorau'n cael digon o amser i ystyried ymgynghoriadau yn llawn ac ymateb iddynt**; bod yr iaith fanwl a ddefnyddir yn y papurau ymgynghori yn eu gwneud yn anodd eu deall; ac nad oedd bob amser yn amlwg pam yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori â chynghorau ynghylch rhai materion.

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Arolwg Llywodraeth Cynulliad Cymru o Gyngorau Cymuned a Thref 2010. Cynhaliwyd yr arolwg yn fewnol gan Is-adran Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyngorau cymuned a thref yw'r haen o lywodraeth yng Nghymru sydd agosaf at y bobl. Maent yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wasanaethau sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion eu poblogaeth leol, a gyda'i gilydd, maent yn cael cyllideb flynyddol o dros £25 miliwn¹. Yng Nghymru, ceir cyfanswm o **735 cyngor cymuned a thref** sy'n gwasanaethu poblogaethau sy'n amrywio o lai na 200 o bobl i dros 45,000 o bobl. Fodd bynnag, nid oes gan bob cymuned yng Nghymru gyngor cymuned neu dref - ar hyn o bryd, caiff oddeutu 70 y cant o boblogaeth Cymru ei chynrychioli gan gyngor cymuned neu dref².

Ac eithrio astudiaeth a gynhaliwyd gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth yn 2002 (ac a gyhoeddwyd yn 2003³) a oedd yn ystyried rôl a swyddogaethau cyngorau cymuned a thref, ceir bwch o ran tystiolaeth ynghylch dealltwriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r cyngorau a'r modd y maent yn gweithredu. Daeth astudiaeth Aberystwyth i'r casgliad bod y manteision sy'n gysylltiedig â chynghorau cymuned a thref yn fwy na'r gost o'u cynnal, a thynnwyd sylw at eu manteision penodol, megis **cynrychiolaeth leol** o'i chymharu ag awdurdodau ar haen uwch a'r ffaith eu bod yn **cynrychioli buddiannau lleol** wrth ymgysylltu â sefydliadau allanol.

¹ Gweler <http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/communitytowncouncils/?lang=cy>

² Gweler http://www.onevoicewales.org.uk/gwybodaethamgyngorau/cyngorau-cymuned-a-thref?set_language=cy

³ Prifysgol Cymru, Aberystwyth (2003). *Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yma: <http://www.aber.ac.uk/en/iges/research-groups/new-political-geographies/research-intro/community-town-councils/>

Mae wyth mlynedd wedi mynd heibio ers astudiaeth Aberystwyth, ac mae llawer o ddatblygiadau a newidiadau wedi digwydd yn y sector ers hynny. Mae'r astudiaeth bresennol yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddysgu mwy am grŵp allweddol o randdeiliaid, cyfansoddiad y sector, ei flaenoriaethau, yr heriau sy'n ei wynebu a'r berthynas rhwng y cynghorau a'u cymuned, eu hawdurdodau unedol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae natur amrywiol cynghorau cymuned a thref yn golygu y bydd cael gwybodaeth gyfoes am nodweddion y sector a'i alluoedd yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i deilwra gwaith llunio polisiau i gyd-fynd â nodweddion unigryw'r lefel hon o lywodraeth leol sydd agosaf at y bobl. Mae'n helpu i ddangos sut y mae cynghorau cymuned a thref yn gweithredu ar hyn o bryd, a sut y mae hynny'n cymharu â'r galwadau posibl sy'n deillio o'r Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol, sy'n ceisio:

'[...] atgyfnerthu strwythurau llywodraeth leol yng Nghymru a gwella'r modd y mae'n gweithio, a hynny ar bob lefel [...] a sicrhau bod cynghorau lleol yn estyn allan at bob sector o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, ac yn ymgysylltu â hwy.'⁴

1.2 Nodau ac amcanion y gwaith ymchwil

Nod cyffredinol y gwaith ymchwil oedd gwella dealltwriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru a'r modd y maent yn gweithredu.

Dyma brif amcanion y gwaith ymchwil:

- Creu proffiliau o'r cynghorau cymuned a thref, eu cynghorwyr a'u clerod, a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig;
- Asesu ansawdd y modd y mae cynghorau cymuned a thref yn ymgysylltu â'u cymunedau, â'u hawdurdodau lleol ac â Llywodraeth Cynulliad Cymru;

⁴ Gweler <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-localgov.htm>

- Sefydlu gwaelodlin ar gyfer sgiliau a galluoedd sy'n dangos sut y mae cynghorau cymuned a thref yn gweithredu ar hyn o bryd, a sut y mae hynny'n cymharu â'r galwadau posibl sy'n deillio o'r Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol.

1.3 Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn ynghylch canfyddiadau wedi'i seilio ar ddadansoddiad o'r ymatebion i arolwg ar-lein a thrwy'r post o gynghorau cymuned a thref a gynhaliwyd yn fewnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Datblygwyd yr holiadur ar gyfer yr arolwg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymgynghoriad ag Un Llais Cymru (sefydliad ymbarél i gynghorau cymuned a thref sy'n darparu gwasanaeth cyngor ac arweiniad i'w aelodau) a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Ym mis Medi 2010, rhoddwyd yr holiadur ar brawf mewn pedwar cyngor cymuned a thref annhebyg, a ddewiswyd am y gwahanol nodweddion a oedd yn perthyn i'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu ac am eu lleoliad daearyddol. Yn dilyn adborth gan y sawl a gymerodd ran yn y cynllun peilot, gwnaed rhai newidiadau i'r holiadur cyn dechrau ar y gwaith maes.

Yn hytrach na mynd ati i gymryd sampl, penderfynwyd gwahodd pob cyngor cymuned a thref yng Nghymru i gymryd rhan yn yr arolwg. Gwahoddwyd clercod pob cyngor cymuned a thref i ymateb i'r arolwg (ar ran eu cyngor ac mewn ymgynghoriad ag ef). Codwyd manylion cyswllt y clercod o fas data Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynghorau cymuned a thref. Mewn achosion lle'r oedd manylion cyswllt ar goll neu heb fod yn gyfredol, gwnaed ymdrechion pellach i sicrhau y byddai'r clercod yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg.

Anfonwyd llythyr neu e-bost ymlaen llaw gan Bennaeth Polisi Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru at bob person cyswllt a oedd wedi ei wahodd i gymryd rhan yn yr arolwg i esbonio diben y gwaith ymchwil. Er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhellach, cafodd llythyr ei ddsbarthu gan Un

Llais Cymru i hysbysu'r pwyllgorau ardal ynghylch yr arolwg hefyd. Yn ogystal, anfonwyd e-bost at y clerod i egluro sut y gallai'r cynghorau ymateb, gan gynnwys fersiwn PDF o'r holiadur gyda'r neges fel bod modd i'r cynghorau ei drafod cyn i'r cleric neu unigolyn arall a enwebwyd lenwi'r holiadur ar ran y cyngor.

Cynigwyd y cyfle i gynghorau ymateb trwy'r post os nad oeddent yn gallu ymateb ar-lein. Roedd cynnig yr opsiwn arall hwn yn golygu bod y dull yn fwy cynhwysol, a bu'n gymorth i gynyddu'r gyfradd ymateb. Wrth gysylltu â hwy am y tro cyntaf, cafodd yr holl ymatebwyr gynnig y cyfle i lenwi'r holiadur yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cynhaliwyd gwaith maes yr arolwg rhwng 29 Hydref ac 17 Rhagfyr 2010. Anfonwyd negeseuon atgoffa at y sawl nad oeddent wedi ymateb hanner ffordd trwy'r cyfnod hwnnw a thua diwedd y cyfnod. Mewn rhai amgylchiadau arbennig, derbyniwyd ymatebion ar ôl y dyddiad cau, sef 17 Rhagfyr.

Cymharwyd y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn â chanfyddiadau'r astudiaeth a gynhaliwyd gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth os oedd hynny'n briodol⁵.

1.4 Cyfradd ymateb

Cyflwynwyd ymatebion i'r arolwg gan 413 o'r 735 cyngor cymuned a thref yng Nghymru, gan roi cyfradd ymateb o **56 y cant**. Mae'r gyfradd ymateb hon ychydig yn is na'r 60 y cant a gafwyd ar gyfer astudiaeth 2002 a gynhaliwyd gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth. Cyflwynwyd cyfanswm o 297 o ymatebion ar-lein, a 116 trwy'r post.

⁵ Mae unrhyw newidiadau rhwng 2002 a 2010 a gaiff eu disgrifio fel rhai 'arwyddocaol' yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol ar lefel hyder o 95%. Fodd bynnag, dylid nodi bod gwahanol fethodolegau a ffocws y ddwy astudiaeth yn golygu efallai na ellir cymharu data 2002 a 2010 yn uniongyrchol.

Mae tabl 1.1 isod yn dadansoddi'r ymatebion a gafwyd yn ôl ardal awdurdod unedol.

Tabl 1.1: Ymatebion i'r arolwg yn ôl awdurdod unedol


Awdurdod unedol	Nifer y cynghorau cymuned neu dref	Nifer yr ymatebion	Cyfradd ymateb
Abertawe	23	14	61%
Blaenau Gwent	4	1	25%
Bro Morgannwg	26	17	65%
Caerdydd	6	5	83%
Caerffili	16	11	69%
Casnewydd	14	8	57%
Castell-nedd Port Talbot	19	11	58%
Ceredigion	51	24	47%
Conwy	33	19	58%
Gwynedd	64	28	44%
Merthyr Tudful	1	0	0%
Pen-y-bont ar Ogwr	20	13	65%
Powys	110	66	60%
Rhondda Cynon Taf	12	6	50%
Sir Benfro	80	38	48%
Sir Ddinbych	37	17	46%
Sir Gaerfyrddin	72	46	64%
Sir Fynwy	33	22	67%
Sir y Fflint	34	19	56%
Torfaen	6	3	50%
Wrecsam	34	25	74%
Ynys Môn	40	20	50%
CYFANSWM	735	413	56%

2. Proffil y cynghorau

2.1 Proffil y cynghorwyr

Roedd nifer y seddi ar bob cyngor cymuned a thref yn amrywio o chwe sedd neu lai (mewn 4 y cant o'r cynghorau) i 20 neu fwy (mewn 2 y cant o'r cynghorau). Roedd gan bron i chwarter y cynghorau 11 neu 12 o seddi (gweler Ffigur 2.1 isod). **Roedd nifer gyfartalog (canolrifol) y seddi i bob cyngor yn 11.3**, sy'n debyg i'r cyfartaledd o 10.8 a adroddwyd yn 2002.

Ffigur 2.1: Nifer y cynghorwyr




Sail: 411 o ymatebion dilys

Dywedodd mwy nag wyth o bob deg cyngor (82 y cant) **nad** oedd ganddynt yr un sedd wag ar eu cyngor. O'r gweddill, roedd nifer y seddi gwag i gynghorwyr yn amrywio rhwng un a phump i bob cyngor.

2.1.1 Cynghorwyr etholedig a chyfetholedig

Fel y mae Ffigur 2.2. yn dangos, roedd pob cynghorydd yn gynghorydd etholedig mewn oddeutu traean (34 y cant) o'r cynghorau. Roedd proffil y cynghorau lle'r oedd pob un o'r cynghorwyr yn gynghorwyr etholedig yn amrywio o gynghorau cymuned llai o faint a oedd â chwe sedd, i gynghorau cymuned a thref mwy o faint a oedd â thros 20 o seddi.


Ffigur 2.2: Cyfran y cynghorwyr etholedig



Sail: 390 o ymatebion dilys

Roedd dros saith o bob deg cyngor (72 y cant) yn hysbysebu lleoedd gwag ar gyfer aelodau cyfetholedig (Ffigur 2.3).

Ffigur 2.3: Cyfran y cynghorau sy'n hysbysebu lleoedd gwag ar gyfer aelodau cyfetholedig



Sail: 406 o ymatebion dilys

2.1.2 Demograffeg y cynghorwyr


Mae demograffeg y cynghorwyr yn dangos bod anghydbwysedd cyffredinol o hyd rhwng dynion a menywod. Yn 2010, roedd **69 y cant** o gynghorwyr yn ddynion, ac roedd **31 y cant** ohonynt yn fenywod, sy'n debyg i'r ffigurau ar gyfer 2002 (pan oedd 72 y cant yn ddynion a 28 y cant yn fenywod).

Yn ogystal, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd unrhyw aelodau ifanc (rhwng 16 a 25 oed) yn eistedd ar y cyngor. Roedd gan **6 y cant** o'r cynghorau aelodau ifanc.

2.3 Oriau gwaith y clerc

Fel y mae Ffigur 2.4 yn dangos, roedd 6 y cant o'r clercod yn gweithio'n llawn amser (a ddiffinnir fel o leiaf 35 awr yr wythnos) - sy'n debyg i'r gyfran a gofnodwyd yn 2002. Roedd pob cyngor a oedd â chlerc yn gweithio'n llawn amser naill ai'n gyngor tref neu'n gyngor cymuned mawr. Roedd dros hanner y clercod (56 y cant) yn gweithio 10 awr yr wythnos neu lai.

Ffigur 2.4: Oriau gwaith wythnosol y clerc



Sail: 410 o ymatebion dilys

2.4 Y cod ymddygiad enghreifftiol

Mae bron iawn pob cyngor wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad enghreifftiol⁶. Dim ond pedwar o'r cyngorau a ymatebodd sydd heb ei fabwysiadu.

2.5 Praesept y cyngor

Mae praeseptau yn ffynhonnell incwm i gynghorau cymuned a thref a gaiff eu codi trwy'r dreth gyngor. Er nad dyma'r unig ffynhonnell incwm (yn wir, nid oes gan rai cynghorau cymuned braesept o gwbl), maent yn tueddu i fod yn ffynhonnell incwm sylweddol i'r rhan fwyaf o gynghorau. Fel y mae *Canllaw y Cyngorydd Da* (2006: tudalen 48)⁷ yn esbonio:

'Pennir y praesept gan y cyngor cymuned ac mae'n cynrychioli ei gyfran o'r dreth gyngor. Mae'r bil praesept yn mynd i'r awdurdod bilio (y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol) sy'n casglu'r dreth ac yn ei dosbarthu i'r cyngor cymuned.'

Roedd y praeseptau ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn 2010-11 yn amrywio'n sylweddol o £0 i £913,610. Roedd y praesept cyfartalog (canolrifol) ar gyfer 2010-11 yn **£13,300**.⁸


Fel y mae Ffigur 2.5 (isod) yn dangos, roedd gan dros bedwar o bob deg cyngor braeseptau o lai na £10,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11. Ar ben arall y raddfa, roedd gan 14 y cant braeseptau o £100,000 o leiaf.

⁶ Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/788/contents/made/welsh>

⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006). *Canllaw y Cyngorydd Da: Ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yma: <http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/communitytowncouncils/publications/goodcouncil/or/>

⁸ Caiff y ganolrif (h.y. y gwerth canol) ei hystyried yn fwy cynrychiolaidd o'r praesept cyfartalog, gan na chaiff ei hystumio gan werthoedd anarferol o uchel i'r un graddau â'r cyfartaledd cymedrig. Yn ôl *Ystadegau Ariannol Llywodraeth Leol* Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), y praesept cyfartalog cymedrig ar gyfer pob cyngor cymuned a thref yng Nghymru ar gyfer 2010-11 oedd £24,838.

Ffigur 2.5: Praesept y cyngor ar gyfer 2010-11



Sail: 399 o ymatebion dilys

2.6 Gwasanaethau ac amwynderau a ddarperir gan gynghorau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa wasanaethau ac amwynderau yr oeddent yn eu darparu i'w cymuned, naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn partneriaeth â sefydliad arall (Tabl 2.1). Y gwasanaethau a'r amwynderau mwyaf cyffredin a ddarparwyd gan gynghorau cymuned a thref oedd grantiau (63 y cant) a meysydd chwarae, manau agored, meysydd pentref neu dir comin (59 y cant).

Tabl 2.1: Gwasanaethau ac amwynderau a ddarperir gan gynghorau

Gwasanaeth neu amwynder	Cyfran y cynghorau sy'n darparu'r gwasanaeth neu'r amwynder (%)^a
Grantiau	63
Meysydd chwarae, mannau agored, meysydd pentref neu dir comin	59
Digwyddiadau cymunedol	50
Neuaddau pentref neu ganolfannau cymunedol	44
Cofebion rhyfel	39
Mynwentydd	31
Goleuadau stryd	30
Cyfleusterau ailgylchu, sgipiau neu finiau sbwriel	24
Rhandiroedd	13
Roedd y gwasanaethau a'r amwynderau eraill a ddarperir gan gynghorau yn cynnwys:	
Llochesi bysiau	
Teledu cylch cyfyng	
Goleuadau Nadolig	
Biniau sbwriel / gwastraff	
Hysbysfyrddau	
Cyfleusterau cyhoeddus	
Llwybrau cyhoeddus	
Seddau	
Sail: 413 o ymatebion dilys	
(a) Mae'r tabl yn dod i gyfanswm o dros 100% oherwydd bod yr ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn	


2.7 Y Gymraeg

Dywedodd dros hanner y cynghorau (53 y cant ohonynt) fod ganddynt Gynllun Iaith Gymraeg, ac roedd ychydig dros bedwar o bob deg cyngor (43 y cant ohonynt) yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg.

3. Sgiliau a hyfforddiant

Gofynnwyd i'r cynghorau i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phedwar datganiad yn ymwneud â sgiliau a hyfforddiant⁹. Fel y mae Ffigur 3.1 yn dangos, roedd chwech o bob deg o ymatebwyr (60 y cant ohonynt) yn cytuno bod y cyngor yn 'annog ei glerc i gael hyfforddiant'. Roedd llai nag un o bob tri ymatebydd (29 y cant ohonynt) yn cytuno bod eu cyngor yn cefnogi'r syniad o greu cynllun achredu¹⁰ i gynghorau cymuned a thref, ond roedd cyfran fwy (37 y cant) yn cytuno y byddai eu cyngor yn elwa o weithio tuag at gynllun achredu. Roedd oddeutu traean o'r ymatebwyr (32 y cant ohonynt) yn cytuno bod y cynghorwyr yn mynd ar gyrsiau hyfforddiant yn rheolaidd.

Ffigur 3.1: Sgiliau a hyfforddiant mewn cynghorau cymuned a thref



Sail: 411 o ymatebion dilys

Mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn dod i 100% oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

⁹ Gallai'r ymatebwyr ateb 'cytuno'n gryf', 'cytuno', 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', 'anghytuno' neu 'anghytuno'n gryf'. At ddibenion y dadansoddiad hwn, mae'r categorïau 'cytuno'n gryf' a 'chytuno' wedi'u cynnwys mewn un categori, ac mae'r un yn wir am y categorïau 'anghytuno'n gryf' ac 'anghytuno'.

¹⁰ Mae hyn yn cyfeirio at gynllun achredu posibl i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru - a gaiff ei gynnwys yn y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol - a allai fod yn debyg i'r 'Quality Parish and Town Council Scheme' yn Lloegr. Er mwyn llwyddo i gyrraedd Statws Ansawdd, rhaid i gynghorau plwyf a thref yn Lloegr ddangos eu bod wedi cyrraedd y meincnod gofynnol trwy basio sawl prawf.


Adroddodd oddeutu **tri o bob deg cyngor** (29 y cant ohonynt) fod ganddynt gyllideb ar gyfer hyfforddiant. O'r cyngorau hynny a oedd â chyllideb ar gyfer hyfforddiant, roedd yr arian a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddiant yn amrywio'n sylweddol, o gyn lleied â £30 i gymaint â £7,000.

3.1 Pŵer Llesiant

Pŵer dewisol yw **Pŵer Llesiant**, sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud unrhyw beth (oni bai ei fod wedi'i wahardd yn benodol dan ddeddfwriaeth) sy'n debygol o hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol a/neu amgylcheddol eu hardal yn eu barn nhw.

Dywedodd dros dri chwarter y cyngorau y byddent 'yn bendant' neu 'yn debyg' o ddefnyddio Pŵer Llesiant pe bai'r pŵer hwnnw'n cael ei roi i gyngorau cymuned a thref (Ffigur 3.2).

Ffigur 3.2: A fyddai eich cyngor yn mynd ati i ddefnyddio Pŵer Llesiant pe bai'r pŵer hwnnw'n cael ei roi i gyngorau cymuned a thref?



Sail: 395 o ymatebion dilys

Nid yw'r cyfanswm yn dod i 100% oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

3.1.1 At ba ddibenion y mae cyngorau'n rhagweld y byddent yn defnyddio Pŵer Llesiant?

Gofynnwyd i'r cyngorau hynny a ddywedodd y byddent yn bendant yn defnyddio Pŵer Llesiant, neu ei bod yn debyg y byddent yn ei ddefnyddio, at

ba ddibenion y maent yn rhagweld y byddent yn defnyddio'r pŵer. Daeth y prif themâu canlynol i'r amlwg o'r ymatebion:

- Er na cheir cynlluniau penodol ar hyn o bryd efallai, byddai Pŵer Llesiant yn caniatáu i gynghorau ymateb yn fwy effeithiol ac yn fwy hyblyg i anghenion eu cymunedau.

'Mae'r cyngor cymuned mewn sefyllfa dda i adnabod anghenion lleol sy'n datblygu ac na chânt eu diwallu gan wasanaethau sy'n bodoli eisoes, ac ymateb iddynt. Fel corff lleol, dylai'r cyngor fod mewn sefyllfa i ymateb yn brydlon ac yn effeithlon i'r anghenion hyn sy'n newid. Yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd, mae gallu cyngor cymuned lleol i ymateb yn y modd hwn yn bwysicach nag y bu erioed.'

Cyngor Cymuned, De-ddwyrain Cymru

- Byddai Pŵer Llesiant yn cael ei ddefnyddio i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymunedau.

'Gwneud beth bynnag y byddai angen ei wneud i hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol a/neu amgylcheddol yr ardal, cyhyd â bod modd cynhyrchu digon o gyllid, naill ai trwy godi'r Praesept neu trwy gymryd cyfrifoldeb am wasanaethau lleol wrth yr awdurdod unedol, gyda'r gyllideb angenrheidiol sy'n dod gyda'r gwasanaeth hwnnw wrth yr awdurdod unedol.' **Cyngor Tref, Gogledd Cymru**

- Mewn rhai ardaloedd, roedd y cynghorau'n rhagweld y byddent yn defnyddio Pŵer Llesiant i hybu twristiaeth, a fyddai yn ei dro yn arwain at wella perfformiad economaidd cymunedau.

'Gweithio tuag at greu sylfaen dwristiaeth newydd, a fydd yn cynnwys parc gwledig, gweithgareddau chwaraeon gan gynnwys beicio mynydd, a fydd, yn ei dro, yn cynyddu nifer y twristiaid, yn annog pobl leol i ddatblygu llety gwely a brecwast ac yn denu busnesau manwerthu bach a busnesau cynnal a chadw.' **Cyngor Cymuned, De-orllewin Cymru**

'Hybu gwaith datblygu i wneud ein tref glan môr yn fwy deniadol fel cyrchfan i dwristiaid yn ystod misoedd mwy tawel y flwyddyn, i sicrhau bod gan ein trigolion swyddi trwy gydol y flwyddyn.' **Cyngor Tref, De-orllewin Cymru**

- Nododd rhai cyngorau y byddai Pŵer Llesiant yn cael ei ddefnyddio i wella'r ymdeimlad o gymuned trwy gynnal rhagor o ddigwyddiadau cymdeithasol.
- Yn ôl rhai cyngorau, byddai Pŵer Llesiant yn arwain at gynnal a chadw gwasanaethau ac amwynderau penodol yn well, megis goleuadau stryd, llwybrau troed, tai a neuaddau pentref.
- Yn ogystal, enwodd y cyngorau ystod o gynlluniau a phrosiectau cymunedol penodol a allai elwa o ddefnyddio Pŵer Llesiant.

Cafwyd ambell air o rybudd hefyd gan y cyngorau a oedd yn rhagweld y byddent yn defnyddio Pŵer Llesiant. Yn gyntaf, rhybuddiodd rhai o'r ymatebwyr y byddai angen cyfarwyddyd arnynt ynghylch sut i ddefnyddio Pŵer Llesiant yn effeithiol; yn ail, mae'n debyg y gallai cyllidebau tynn gyfyngu ar ba mor ddefnyddiol yw Pŵer Llesiant; ac yn olaf, mynegwyd peth ansicrwydd ynghylch a fyddai Pŵer Llesiant yn darparu cydsyniad statudol i fynd i'r afael â rhai materion, megis dod â band eang i gymunedau gwledig anghysbell.

3.1.2 Beth fyddai'n atal cyngorau rhag defnyddio Pŵer Llesiant?

Gofynnwyd i'r cyngorau hynny a ddywedodd yn bendant **na** fyddent yn defnyddio Pŵer Llesiant, neu ei bod yn debyg **na** fyddent yn ei ddefnyddio, beth fyddai'n eu rhwystro rhag gwneud hynny. Daeth y prif themâu canlynol i'r amlwg o'r ymatebion:

- Un pryder sylweddol ymysg y cyngorau oedd **nad oes ganddynt yr adnoddau ariannol angenrheidiol** i ddefnyddio Pŵer Llesiant. Yn gysylltiedig â hyn mynegwyd pryder bod y cyngor yn rhy fach a/neu na fyddai gan y cyngorwyr amser i ddefnyddio Pŵer Llesiant yn effeithiol.

'Mae mwyafrif y cyngorwyr yn gweithio'n llawn amser, felly prin yw'r amser sydd ganddynt i ymgymryd â mentrau newydd.' **Cyngor Cymuned, De-orllewin Cymru**

- Mewn rhai cynghorau, teimlwyd bod y pwerau sydd ganddynt ar hyn o bryd yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned.

'Rydym eisoes yn gwneud defnydd helaeth o'r pwerau dan Adran 137 a 145 i gynorthwyo'r gymuned leol. Ystyrir mai'r cyfan y byddai pwerau pellach yn ei wneud fyddai arwain at godi'r praesept ac ymgymryd â swyddogaethau y dylai'r awdurdod unedol fod yn gyfrifol amdanynt.' **Cyngor Tref, Canolbarth Cymru**

- Roedd rhai cynghorau o'r farn nad oeddent yn deall digon am Bŵer Llesiant, felly ni fyddent yn hyderus yn ei ddefnyddio.

4. TGCh a chyfathrebu

4.1 Gwefan y cyngor

Dywedodd tua hanner y cynghorau fod ganddynt wefan (47 y cant). Roedd y ffigur hwn wedi cynyddu'n sylweddol ers 2002, pan adroddwyd bod gan lai nag un o bob pump o gynghorau wefan.

Gofynnwyd i'r cynghorau hynny a nododd fod ganddynt eu gwefan eu hunain beth yr oeddent yn ei ddarparu. Roedd bron i naw o bob deg cyngor a oedd â gwefan (88 y cant ohonynt) yn darparu cofnodion y cyngor, ac roedd chwech o bob deg (62 y cant) yn darparu agendâu cyfarfodydd y cyngor (gweler Tabl 4.1).

Tabl 4.1: Beth sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor?

	Cyfran y cynghorau sydd â gwefan sy'n darparu gwybodaeth(%) ^a
Cofnodion y cyngor	88
Agendâu cyfarfodydd cyngor	62
Crynodeb o gyllideb y cyngor	27
Ymgynghoriadau	20
Arolygon	14
Cynllun cymunedol	11
Fforymau ar-lein	10
Roedd y wybodaeth arall a gaiff ei chyhoeddi gan y cynghorau ar eu gwefan yn cynnwys y canlynol:	
Manylion cyswllt	
Proffiliau o'r cynghorwyr	
Digwyddiadau	
Gwybodaeth am yr ardal / gwybodaeth i dwristiaid	
Dolenni cyswllt i sefydliadau lleol	
Llythyr newyddion	
Sail: 191 o ymatebion dilys	
(a) Mae'r tabl yn dod i gyfanswm o dros 100% oherwydd bod yr ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn	

O'r cynghorau hynny a oedd heb wefan, dywedodd 56 y cant ohonynt nad oedd yn flaenoriaeth iddynt gael gwefan, a dywedodd 42 y cant ohonynt fod neb ar gael ganddynt i gynnal gwefan (gweler Tabl 4.2).


Tabl 4.2: Y rhesymau pam nad oes gan gynghorau wefan

Rheswm	Cyfran y cynghorau sydd heb wefan (%) ^a
Nid yw'n flaenoriaeth gan ein cyngor	56
Does neb ar gael i gynnal gwefan	42
Ni all y cyngor fforddio gwefan	34
Ni fyddai'r gymuned yn ei defnyddio	17
Roedd y rhesymau eraill am beidio â chael gwefan yn cynnwys:	
Mae gan y cyngor dudalennau ar wefan yr awdurdod unedol / Un Llais Cymru / gwefan arall	
Ceir problemau o ran cynnal gwefan ddwyieithog	
Ceir cysylltiadau araf â'r rhyngwrwyd yn yr ardal	
Rydym wrthi'n datblygu gwefan ar hyn o bryd	
Sail: 219 o ymatebion dilys	
(a) Mae'r tabl yn dod i gyfanswm o dros 100% oherwydd bod yr ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn	

4.2 Mynediad i TGCh

Fel y mae Ffigur 4.1 yn dangos, **roedd gan saith o bob deg cyngor fynediad i'r rhyngwrwyd** (69 y cant ohonynt). Roedd dros hanner y cynghorau yn defnyddio cyfrifiaduron ac argraffyddion o eiddo'r clerc, ac roedd 44 y cant ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron ac argraffyddion o eiddo'r cyngor. Mae hynny'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â 2002, pan adroddwyd bod 37 y cant yn defnyddio cyfrifiadur o eiddo'r cyngor. **Nid oedd gan un o bob ugain cyngor** (5 y cant) fynediad i gyfrifiadur, argraffydd neu'r rhyngwrwyd.

Ffigur 4.1: Y mynediad sydd gan gynghorau i TGCh




Sail: 413 o ymatebion dilys

5. Ymgysylltu â chymunedau

Gofynnwyd i'r cynghorau i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phedwar datganiad yn ymwneud â'r modd y maent yn ymgysylltu â chymunedau¹¹.

At ei gilydd, roedd yr ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol, gydag oddeutu naw o bob deg cyngor yn cytuno eu bod yn 'deall yn glir beth yw anghenion y gymuned leol'; bod 'perthynas dda rhwng y cyngor a'r gymuned leol'; a bod 'y gymuned yn barod iawn i gysylltu â'r cyngor i ofyn cwestiynau'. Roedd yr ymatebion yn llai cadarnhaol o safbwynt yr ymateb a geir gan y cyhoedd pan gaiff seddi ar y cyngor eu hysbysebu (gweler Ffigur 5.1).

Ffigur 5.1: Y modd y mae cynghorau cymuned a thref yn ymgysylltu â chymunedau



Sail: 413 o ymatebion dilys

Mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn dod i 100% oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

Gofynnwyd i'r cynghorau nodi yn eu trefn y tri rheswm mwyaf cyffredin sy'n peri i aelodau'r gymuned (gan gynnwys grwpiau cymunedol) gysylltu â'u

¹¹ Gallai'r ymatebwyr ateb 'cytuno'n gryf', 'cytuno', 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', 'anghytuno' neu 'anghytuno'n gryf'. At ddibenion y dadansoddiad hwn, mae'r categorïau 'cytuno'n gryf' a 'chytuno' wedi'u cynnwys mewn un categori, ac mae'r un yn wir am y categorïau 'anghytuno'n gryf' ac 'anghytuno'.

cyngor. Fel y mae Tabl 5.1 yn dangos, yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd ‘problemau lleol’ (94 y cant) a ‘chynllunio’ (75 y cant).

Tabl 5.1: Y rhesymau mwyaf cyffredin sy’n peri i aelodau’r gymuned gysylltu â’r cyngor

Rheswm	Cyfran y cyngorau sy’n nodi’r rheswm yn eu tri uchaf (%) ^a
Problemau lleol	94
Cynllunio	75
Materion ariannu	40
Gwasanaethau’r awdurdodau unedol (e.e. casglu sbwriel)	39
Gwasanaethau’r cyngor cymuned neu dref (e.e. y neuadd gymunedol, ffeiriau, gwasanaethau llyfrgell)	29
Ymgyrchu	14
Rhesymau eraill a nodwyd gan lai na 2 y cant o’r cyngorau:	
Cynllunio cydnerthu cymunedol	
Sail: 413 o ymatebion dilys	
(a) Mae’r tabl yn dod i gyfanswm o dros 100% oherwydd bod yr ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb i’r cwestiwn hwn	

Yn ogystal, gofynnwyd i’r cyngorau nodi yn eu trefn y tri dull mwyaf cyffredin sy’n cael eu defnyddio gan aelodau’r gymuned leol i gysylltu â’r cyngor. Fel y mae Tabl 5.2 yn dangos, y dull mwyaf cyffredin yr adroddwyd amdano oedd ffonio (88 y cant).

Tabl 5.2: Y dulliau mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan aelodau’r gymuned i gysylltu â’r cyngor

Dull	Cyfran y cyngorau sy’n nodi’r dull yn eu tri uchaf (%) ^a
Ffôn	88
Wyneb yn wyneb	77
Post	70
E-bost	51
Dulliau eraill a nodwyd gan lai na 4 y cant o’r cyngorau:	
Ffurflenni ar wefan y cyngor	
Sail: 413 o ymatebion dilys	
(a) Mae’r tabl yn dod i gyfanswm o dros 100% oherwydd bod yr ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb i’r cwestiwn hwn	

5.1 Ymgysylltu â'r gymuned a'r weithdrefn gwyno

Roedd gan dros hanner y cyngorau (55 y cant ohonynt) weithdrefn gwyno. Nid oedd gan 45 y cant ohonynt weithdrefn o'r fath. Roedd gan un o bob deg cyngor (10 y cant ohonynt) bolisi ymgysylltu â'r gymuned. Nid oedd polisi o'r fath gan naw o bob deg cyngor (90 y cant ohonynt). Fodd bynnag, o blith y cyngorau a oedd â pholisi ymgysylltu â'r gymuned, nid oedd gan yr un ohonynt bron gyllideb wedi'i neilltuo'n arbennig ar gyfer y polisi.

5.1.1 Sylwadau am y berthynas rhwng y cyngor a'i gymuned

Gofynnwyd i'r cyngorau a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach am y berthynas rhyngddynt a'u cymuned. Daeth y prif themâu canlynol i'r amlwg o'r ymatebion:

- Roedd teimlad cryf ymysg llawer o'r cyngorau cymuned llai o faint bod perthynas dda yn bodoli rhyngddynt â'u cymuned o ganlyniad i'r ffaith bod y gymuned yn un 'glòs', a'r ffaith bod y cyngorwyr yn hawdd mynd atynt ac yn hawdd siarad â hwy.

'[Rydym yn] gymuned fach. Mae'n anodd osgoi cyfarfod â thrigolion eraill yn rheolaidd, ac mae'r cyfathrebu rhwng y cyngor a'r trigolion yn digwydd yn barhaus ac yn agored.' **Cyngor Cymuned, De-orllewin Cymru**

'Rydym yn gymuned fach iawn ond yn gymuned glòs, ac mae ein cyngorwyr yn hawdd iawn mynd atynt. Caiff y rhan fwyaf o broblemau eu datrys yn brydlon dros baned o de!' **Cyngor Cymuned, De-ddwyrain Cymru**

- Roedd y dulliau yr oedd y cyngorau'n eu defnyddio i fynd ati i ymgysylltu â'u cymunedau'n cynnwys cynnal cymorthfeydd neu gyfarfodydd cyffredinol yn rheolaidd; cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y cyngor mewn papur newydd lleol, ar wefan neu hysbysfwrdd cymunedol; a thrwy annog mwy o gyfranogiad gan aelodau iau'r gymuned trwy sefydlu cyngorau ieuenctid.

'Rydym yn gweithredu Cyngor Ieuenctid llwyddiannus iawn gyda'r ysgol uwchradd, sy'n bwydo'n uniongyrchol i strwythur pwyllgorau'r cyngor. Rydym yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac ymgynghoriadau rheolaidd, ac yn mynd ati i gasglu barn ynghylch yr hyn sy'n digwydd.' **Cyngor Tref, Canolbarth Cymru**

'Mae'r rhan fwyaf o'r cynghorwyr wedi byw a gweithio yn y gymuned trwy gydol eu hoes, felly maent yn adnabod yr ardal a'r gymuned yn dda iawn. Maent yn hawdd iawn mynd atynt, ac mae eu manylion cyswllt llawn ar [ein] hysbysfyrddau a'n gwefan.' **Cyngor Cymuned, Canolbarth Cymru**

- Nododd rhai cynghorau fod datblygu gwefannau cymunedol wedi helpu i feithrin gwell cyfathrebu yn y gymuned.

'Mae cael gwefan gymunedol a ariennir gan y cyngor ac sy'n cynnwys tudalennau'r cyngor, wedi gwella cyfathrebu yn y gymuned yn sylweddol.' **Cyngor Cymuned, De-ddwyrain Cymru**

- Roedd rhai cynghorau'n pryderu am y ffaith nad oedd gan y gymuned y maent yn ei gwasanaethu ddiddordeb mewn ymgysylltu â'r cyngor.

'Nid oes gan y gymuned fawr ddim diddordeb yn y modd y mae'r Cyngor Cymuned yn gweithredu.' **Cyngor Cymuned, Canolbarth Cymru**

'Rydym ni fel cyngor yn ei chael yn anodd iawn ymgysylltu â'r gymuned, er bod yr aelodau unigol yn hawdd mynd atynt. Mae'r wefan wedi profi'n llwyddiant, ond rydym yn dal i'w chael hi'n anodd ymgysylltu â'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu.' **Cyngor Tref, De-ddwyrain Cymru**

'Mae'r cyngor yn ceisio ymgysylltu â'r gymuned trwy gyfarfodydd agored, boreau a nosweithiau coffi, arddangosfeydd ac ati, ond mae'r ymateb yn wan ar y cyfan.' **Cyngor Cymuned, Gogledd Cymru**

- Pryder arall a fynegwyd oedd nad oedd aelodau'r gymuned yn aml yn gwybod beth oedd gwahanol gyfrifoldebau'r cyngor cymuned neu dref a'r cyngor sir.

'Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ansicr ynghylch rôl y Cyngor Cymuned - mae llawer ohonynt yn meddwl bod y Cynghorwyr yn cael eu talu a'u bod yn rhan [o'r Cyngor

Sir]. Byddai Cynghorau Cymuned yn elwa o gael cymorth i gynhyrchu llyfrynnau a deunyddiau eraill i esbonio eu rôl yn y gymuned.’ **Cyngor Cymuned, De-ddwyrain Cymru**

‘Nid yw’r rhan fwyaf o bobl yn gwybod y gwahaniaeth rhwng y Cyngor Sir a’r Cyngor Tref. Felly, mae’r rhan fwyaf yn mynd at y Cyngor Tref yn gyntaf.’ **Cyngor Tref, Gogledd Cymru**

6. Ymgysylltu ag awdurdodau unedol


Gofynnwyd i'r cynghorau i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phedwar datganiad yn ymwneud â'r modd y maent yn ymgysylltu â'u hawdurdod unedol ¹².

Yr ymateb mwyaf cadarnhaol a gafwyd oedd 'mae perthynas dda rhwng ein cyngor a'r awdurdod unedol', gyda thri chwarter y cynghorau (73 y cant ohonynt) yn cytuno â'r datganiad hwn. Ymatebodd dros hanner y cynghorau mewn modd cadarnhaol i'r datganiadau ynghylch cyfathrebu â'r awdurdod unedol (roedd 55 y cant ohonynt yn anghytuno bod cyfathrebu'n wael) a'r ffaith bod yr awdurdod unedol yn helpu eu cyngor i gyflawni ei amcanion (roedd 54 y cant ohonynt yn cytuno).

Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r datganiad 'mae'r awdurdod unedol yn ystyried sylwadau ein cyngor ynghylch ceisiadau cynllunio' yn llai cadarnhaol, gyda chwarter y cynghorau (27 y cant ohonynt) yn anghytuno â'r datganiad.

¹² Gallai'r ymatebwyr ateb 'cytuno'n gryf', 'cytuno', 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', 'anghytuno' neu 'anghytuno'n gryf'. At ddibenion y dadansoddiad hwn, mae'r categorïau 'cytuno'n gryf' a 'chytuno' wedi'u cynnwys mewn un categori, ac mae'r un yn wir am y categorïau 'anghytuno'n gryf' ac 'anghytuno'.

Ffigur 6.1: Y modd y mae cynghorau cymuned a thref yn ymgysylltu ag awdurdodau unedol



Sail: 413 o ymatebion dilys

Mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn dod i 100% oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

6.1 Cytundebau siarter a chytundebau lefel gwasanaeth

Mae cytundebau siarter yn amlinellu telerau'r berthynas rhwng awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref. Roedd oddeutu **dwy ran o dair o'r cynghorau** (65 y cant ohonynt) yn gweithio tuag at sefydlu cytundeb siarter rhyngddynt â'u hawdurdod lleol. O'r 35 y cant o gynghorau **nad** oeddent yn gweithio tuag at sefydlu cytundeb siarter â'r awdurdod lleol, dyma'r prif resymau a roddwyd dros hynny:

- Nid oedd y cytundebau siarter wedi'u cynnig eto, ond mewn rhai achosion bwriedir dechrau gweithio tuag at sefydlu un;
- Diffyg awydd ymddangosiadol ar ran yr awdurdodau unedol i fwrw ymlaen â'r mater;
- Gan fod Un Llais Cymru yn gweithredu fel canolwr ar ran rhai cynghorau gyda'r awdurdod unedol, teimlwyd nad oedd angen cytundeb siarter;
- Dim angen sefydlu cytundeb siarter. Yn benodol, roedd rhai cynghorau'n teimlo na fyddai'n dod ag unrhyw fudd i'w cymuned;

- Nid oedd rhai cyngorau'n ymwybodol o fodolaeth cytundebau siarter, neu nid oeddent yn deall yn iawn beth oeddent.

Mae cytundebau lefel gwasanaeth yn drefniadau lle mae awdurdod unedol yn dirprwyo cyllid i gyngor cymuned neu dref er mwyn iddo ddarparu ystod a lefel o wasanaethau y cytunwyd arnynt. Roedd gan **16 y cant o gynghorau** gytundeb lefel gwasanaeth â'u hawdurdod unedol (nid oedd gan 84 y cant ohonynt gytundeb lefel gwasanaeth). Gofynnwyd i'r cynghorau hynny a oedd â chytundebau lefel gwasanaeth pa wasanaethau a oedd wedi'u trosglwyddo o'r awdurdodau unedol i'r cyngor. Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

- Cynnal a chadw amwynderau megis llwybrau cyhoeddus, cyfleusterau cyhoeddus a llochesi bysiau;
- Ariannu staff e.e. gweithwyr ieuenctid;
- Fforymau cyngor cymuned a thref;
- Cynlluniau arian cyfatebol gyda'r awdurdod unedol;
- Cyrff llywodraethu ysgolion.

6.2 Cyfethol aelodau i bwyllgorau'r awdurdod lleol

Roedd gan oddeutu **chwarter o'r cynghorau** (26 y cant ohonynt) aelodau a oedd wedi'u cyfethol i bwyllgorau awdurdodau lleol. Roedd y pwyllgorau yr oedd aelodau'r cyngor wedi'u cyfethol iddynt yn cynnwys y canlynol:

- Fforymau cyngor cymuned a thref;
- Pwyllgorau cyswllt â'r gymuned;
- Pwyllgorau cynllunio;
- Fforymau'r heddlu;
- Llywodraethwyr ysgol;
- Pwyllgorau safonau.

6.2.1 Sylwadau am y berthynas rhwng y cyngor a'r awdurdod unedol

Gofynnwyd i'r cynghorau a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach am y berthynas rhyngddynt a'u hawdurdod unedol. Cafwyd ystod eang o sylwadau. Roedd rhai ohonynt yn sôn am y berthynas mewn modd cadarnhaol, ac roedd eraill yn feirniadol. Daeth y prif themâu canlynol i'r amlwg:

- Y brif gŵyn oedd eu bod yn teimlo bod yr **awdurdodau unedol yn araf yn ymateb i ohebiaeth gan gynghorau**, er y gallai hynny amrywio rhwng gwahanol adrannau yn yr un awdurdod unedol.

'Ar lefel bersonol, ceir perthynas dda â [Swyddogion y Cyngor Sir]. Y brif gŵyn yw bod y [Cyngor Sir] yn cymryd cymaint o amser cyn ymateb i ohebiaeth.' **Cyngor Tref, Gogledd Cymru**

- Er bod y berthynas ar lefel sefydliadol weithiau'n cael ei hystyried yn llesteiriol, ar lefel bersonol (e.e. wrth ymdrin â swyddogion unigol) byddai'r berthynas yn aml yn well, neu byddai'n amrywio o un unigolyn i'r llall.

'Ar hyn o bryd, mae'r berthynas yn amrywio o un adran o'r awdurdod unedol i'r llall, ac at ei gilydd mae'n dibynnu ar barodrwydd yr aelod unigol o staff i gynorthwyo, yn hytrach nag ar bolisi cyffredinol o gydweithredu. Gobeithio y bydd hynny'n newid pan gaiff y Siarter ei chytuno.' **Cyngor Cymuned, De-ddwyrain Cymru**

'Mae'r cyswllt [â'r] awdurdod unedol yn amrywio o un adran i'r llall, ac nid yw llawer yn cydnabod rôl y Cyngor Cymuned mewn llywodraeth leol, ac nid ydynt yn trin ymholiadau'n wahanol i'r ymholiadau a geir gan aelodau'r cyhoedd. [...] Mae angen mwy o ryngweithio a hyfforddiant i sicrhau bod pobl yn deall ac yn gwerthfawrogi rôl yr awdurdod unedol a'r cyngor cymuned yn well – er mwyn hwyluso dull o weithio mewn partneriaeth.' **Cyngor Cymuned, De-ddwyrain Cymru**

- Mynegwyd pryderon penodol nad yw awdurdodau unedol bob amser yn ystyried barn y cynghorau ynghylch materion cynllunio.

'Mae'r cynghorwyr yn pryderu na chaiff safbwyntiau'r Cyngor eu hystyried yng nghyswllt rhai materion cynllunio, ac nid ydym yn cael unrhyw adborth.' **Cyngor Cymuned, Canolbarth Cymru**

'Ni chaiff gohebiaeth ei hateb am fisoedd, rhoddir y gorau i brosiectau ar y cyd heb esboniad neu ymddiheuriad, a chaiff y cynghorau eu hanwybyddu'n aml gan yr adran gynllunio.' **Cyngor Cymuned, Gogledd Cymru**

- Nodwyd bod fforymau cynghorau cymuned yn ffordd gadarnhaol i'r cynghorau a'r awdurdod unedol ymwneud â'i gilydd, yn yr un modd ag yr oedd cael cynghorwyr sir yn mynychu cyfarfodydd cynghorau cymuned, a gwaith swyddogion cyswllt y cyngor sir.

'Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o ymwneud â'n gilydd yw trwy'r [Fforwm], y mae clerod a chadeiryddion y cynghorau yn ei fynychu, ac a gaiff ei reoli gan y personél sy'n gyfrifol am y siop un stop, sydd yn eu tro yn gallu trafod ag adrannau [y Cyngor Sir]. Rydym yn cyfarfod o leiaf naw gwaith y flwyddyn.' **Cyngor Cymuned, De-ddwyrain Cymru**

'Bydd y Cyngor Cymuned yn anfon tri aelod o'r cyngor i gyfarfodydd y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned yn rheolaidd [...] ac mae'n croesawu'r cyfle i gael trafodaeth o'r fath ag arweinydd y [Cyngor Sir].' **Cyngor Cymuned, Gogledd Cymru**

'Cynhelir cyfarfodydd ardderchog o'r fforwm cynghorau cymuned a thref bob chwarter.' **Cyngor Cymuned, Gogledd Cymru**

- Tynnodd y cynghorau yn ardaloedd y parciau cenedlaethol sylw at rai problemau penodol, lle mae'n bosibl bod gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Cyngor Sir safbwyntiau neu bolisiâu sy'n gwrthdaro. Fel y nododd un cyngor cymuned: 'Yn yr ardal hon, mae gennym awdurdod unedol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae problemau'n gallu codi ynghylch pwy sy'n gwneud beth.'
- Lle'r oedd cytundebau siarter ar waith, barnwyd nad oedd rhai ohonynt yn gweithio cystal ag y bwriadwyd iddynt wneud.

'Anaml iawn y bydd yr awdurdod unedol yn bodloni ei gytundeb siarter ei hun mewn perthynas â'r amser y mae'n ei gymryd i ymateb i ohebiaeth ysgrifenedig.' **Cyngor Tref, Gogledd Cymru**

7. Ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gofynnwyd i'r cynghorau i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phedwar datganiad yn ymwneud â'r modd y maent yn ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru¹³.


O safbwynt y datganiad 'pan fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori â ni, mae'n glir pam maen nhw'n gwneud hynny', roedd oddeutu hanner y cynghorau (49 y cant ohonynt) yn cytuno, roedd 19 y cant ohonynt yn anghytuno, ac nid oedd 33 y cant yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r datganiadau eraill yn llai cadarnhaol, gyda 41 y cant o gynghorau'n cytuno bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cynnwys 'yn ystod unrhyw gamau priodol yn y broses o lunio polisi'; roedd 37 y cant ohonynt yn cytuno eu bod yn 'gwybod am y cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'; ac roedd 31 y cant ohonynt yn cytuno bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 'deall gwaith y cynghorau cymuned a thref'.

O'i gymharu â chwestiynau'n ymwneud â'r modd y mae'r cyngor yn ymgysylltu â'i gymuned a'i awdurdod unedol, roedd y cwestiynau ynghylch ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi arwain at **gyfran eithaf uchel o ymatebion niwtral**. Yn benodol, nid oedd oddeutu hanner y cynghorau (51 y cant ohonynt) yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad bod 'Llywodraeth Cynulliad Cymru yn deall gwaith y cynghorau cymuned a thref' (gweler Ffigur 7.1).

¹³ Gallai'r ymatebwyr ateb 'cytuno'n gryf', 'cytuno', 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', 'anghytuno' neu 'anghytuno'n gryf'. At ddibenion y dadansoddiad hwn, mae'r categorïau 'cytuno'n gryf' a 'chytuno' wedi'u cynnwys mewn un categori, ac mae'r un yn wir am y categorïau 'anghytuno'n gryf' ac 'anghytuno'.

Ffigur 7.1: Y modd y mae cynghorau cymuned a thref yn ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru



Sail: 409 o ymatebion dilys

Mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn dod i 100% oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu.

7.1.1 Sylwadau am y berthynas rhwng y cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gofynnwyd i'r cynghorau a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach ynghylch y berthynas rhyngddynt a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Daeth y prif themâu canlynol i'r amlwg o'r ymatebion:

- Roedd llawer o'r sylwadau a roddwyd yn ymwneud â'r **modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori â chynghorau**. Er bod y cynghorau'n croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn y broses llunio polisiau, cafwyd rhai cwynion, sef:
 - Mae'r iaith fanwl a ddefnyddir i ysgrifennu'r papurau ymgynghori'n golygu eu bod yn anodd eu deall.
 - Roedd rhai cynghorau'n amau pa mor berthnasol yr oedd y papurau ymgynghori yr oeddent yn eu cael.

'Fel cyngor bach, yn aml bydd y wybodaeth a ddaw i law wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ymddangos yn fanwl ac yn ddryslyd iawn, ac yn aml bydd yn amherthnasol.' **Cyngor Cymuned, Canolbarth Cymru**

'Yn aml, mae'r wybodaeth a gaiff ei throsglwyddo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r Cyngor Tref yn amleiriog ac mae'r cynghorwyr a'r clerics wedi'u drysu ynghylch sut y mae'n berthnasol i'n Cyngor Tref ni.' **Cyngor Tref, Gogledd Cymru**

- Mae dogfennau ymgynghori'n tueddu i fod yn hir ac yn feichus o ran yr amser y mae ei angen i'w hystyried.

'Yn aml byddwn yn cael gohebiaeth swmpus iawn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n amhosibl ei hystyried yn llawn.' **Cyngor Cymuned, De-orllewin Cymru**

- Ystyriwyd bod nifer yr ymgynghoriadau a anfonir i'r cynghorau yn feichus.

'Gall yr holl ymgynghoriadau ysgrifenedig manwl fod yn ormod o faich, ac felly cânt eu hanwybyddu. Efallai y byddai crynodeb symlach sy'n berthnasol i'r cyngor dan sylw'n gallu arwain at fwy o ddiddordeb ac adborth.' **Cyngor Cymuned, De-ddwyrain Cymru**

- Ni roddir digon o amser i'r cynghorau ystyried dogfennau ymgynghori ac ymateb iddynt.

'Yn aml mae'r ymgynghoriadau'n rhy hwyr, ac mae'r amserlen yn afresymol ar gyfer y Cynghorau hynny sy'n cyfarfod unwaith y mis yn unig.' **Cyngor Tref, Gogledd Cymru**

'Mae angen rheoli'r dull o drefnu amserlen yr ymgynghoriadau'n well.' **Cyngor Cymuned, Gogledd Cymru**

- Ceir teimlad ymysg rhai cynghorau bod cynghorau'n cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y broses ymgynghori er mwyn bodloni gofynion yn unig.

'Ceir y teimlad bod unrhyw ddogfen a ddaw i law yn ganlyniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn y drefn ac mai dim ond er mwyn bodloni gofynion y mae'n cynnwys Cyngorau Cymuned' **Cyngor Cymuned, De-ddwyrain Cymru**

- Ymatebodd rhai cyngorau gan ddweud bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddealltwriaeth well o awdurdodau unedol nag o gyngorau cymuned a thref (a'i bod yn cyfathrebu'n well â nhw).
- Teimlwyd nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn deall yn llawn y rôl y mae cyngorau'n ei chwarae mewn cymunedau bach gwledig.
- Roedd rhai cyngorau am gael gwell mynediad i wybodaeth ynghylch sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru eu helpu, yn enwedig mewn perthynas â chael mynediad i grantiau a chyllid.

'Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfathrebu'n uniongyrchol â chynghorau wrth gyhoeddi cymorth ariannol. Mae angen ystyried y modd y caiff cyllid ei ddyrannu i sefydliadau y mae'r sir yn eu cefnogi yn yr ardal hon. Mae cyngorau tlotach sydd heb ddigon o wybodaeth ar eu colled ar draul cyngorau mwy o faint sydd â digon o arbenigedd a sgiliau wrth law. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fynnu bod pob lefel o boblogaeth yn cael cyfle cyfartal.' **Cyngor Cymuned, Gogledd Cymru**

'Dylai Cyngorau Cymuned gael mwy o gymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'r hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir wrth gynhyrchu cynlluniau cymunedol [...] ac arweiniad clir ynghylch pa gyllid sydd ar gael a sut y gellir cael mynediad iddo, gan ei fod yn anodd iawn i glercod rhan amser fynd i'r afael â'r holl feysydd hyn yn yr amser prin sydd ar gael.' **Cyngor Cymuned, De-ddwyrain Cymru**

Atodiad A: Holiadur



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Arolwg o Gyngorau Cymuned a Thref 2010

Byddem yn ddiolchgar pe gallech chi helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddeall yn well gwaith y cyngorau cymuned a thref trwy lenwi'r arolwg hwn. Defnyddir yr arolwg i lunio adroddiad ar gyngorau cymuned a thref yng Nghymru. Cyhoeddir yr adroddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd yr arolwg yn cymryd oddeutu **20 munud** i'w gwblhau. Y Clerc ddylai lenwi'r holiadur ar ran y cyngor cymuned neu'r cyngor tref. Bydd pob ateb yn cael ei gadw'n gyfrinachol ac ni fydd unigolion yn cael eu henwi yn yr adroddiad.

Manylion yr Ymatebydd

Rhowch enw'r person a lenwodd y ffurflen hon rhag ofn bod gennym unrhyw gwestiynau ynghylch yr holiadur hwn. Ni fyddwn yn rhoi'r wybodaeth hon i unrhyw un y tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

1) Enw

2) Teitl eich swydd

3) Cyfeiriad e-bost

4) Rhif Ffôn

5) Enw'r cyngor cymuned neu'r cyngor tref

6) Ym mha awdurdod unedol y mae eich cyngor?

Proffil eich cyngor

Yn yr adran hon, hoffwn ni ddysgu mwy am broffil eich cyngor cymuned neu eich cyngor tref.

7) Faint o seddi i gynghorwyr sydd ar eich cyngor?

8) Faint o swyddi cynghorwyr sy'n wag ar hyn o bryd?

9) O'ch cynghorwyr presennol, faint sydd wedi'u hethol?

10) O'ch cynghorwyr presennol, faint sydd wedi'u cyfethol?

11) Ydych chi'n hysbysebu swyddi gwag ar gyfer cyfethol cynghorwyr?

Ydym

Nac ydym

Amherthnasol – nid oes neb o blith ein cynghorwyr sydd wedi'u cyfethol

12) O'ch cynghorwyr presennol, faint sydd yn ddyinion?

13) O'ch cynghorwyr presennol, faint sydd yn fenywod?

14) A oes unrhyw aelodau ieuenctid (rhwng 16 a 25 oed) yn eistedd ar eich cyngor?

Oes Nac oes

15) Ai swydd lawnamser neu ran-amser yw swydd clercc eich cyngor?

Llawnamser (35 awr yr wythnos neu ragor) [Ewch i gwestiwn 17]

Rhan-amser (Llai na 35 awr yr wythnos) [Ewch i gwestiwn 16]

16) Sawl awr yr wythnos y mae Clerc y cyngor cymuned neu'r cyngor tref yn ei weithio?

10 yr wythnos neu lai

Rhwng 11 a 20 awr

Rhwng 21 a 30 awr

Rhwng 31 a 34 awr

17) A yw eich cyngor wedi mabwysiadu Model Cod Ymddygiad 2008 ar gyfer ei aelodau?

Ydy

Nac ydy

18) Beth oedd cyfanswm incwm eich cyngor ym mlwyddyn ariannol 2009-10?

19) Beth oedd gwerth praesept eich cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11?

20) Pa rai ymhlith y gwasanaethau ac amwynderau canlynol rydych chi'n darparu ar gyfer eich cymuned, naill ai ar eich pen eich hunan neu mewn partneriaeth ag eraill?

- Rhandiroedd
- Mynwentydd
- Digwyddiadau cymunedol
- Grantiau
- Meysydd chwarae, mannau agored, meysydd pentref neu dir comin
- Cyfleusterau ailgylchu, sgiplau neu finiau sbwriel
- Goleuadau stryd
- Neuaddau pentref neu ganolfannau cymunedol
- Cofebion rhyfel

21) Nodwch unrhyw wasanaethau neu amwynderau, nad ydynt yn y rhestr uchod, yr ydych yn eu darparu i'ch cymuned, naill ai ar eich pen eich hunan neu mewn partneriaeth ag eraill.

22) A yw eich cyngor yn darparu unrhyw wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg?

Ydy

Nac ydy

23) A oes Cynllun Iaith Gymraeg gan eich cyngor?

Oes

Nac oes

Sgiliau a hyfforddiant

Yn y datganiadau isod, gellir cymryd y gallai **cynllun achredu** ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru fod yn debyg i'r 'quality parish and town council scheme' yn Lloegr. I ennill 'Quality Status', rhaid i gynghorau plwyf a thref yn Lloegr ddangos eu bod wedi cyrraedd safon sy'n cyd-fynd â throthwy isaf y meincnod a ofynnir, a hynny trwy lwyddo mewn nifer o brofion.

24) I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae cynghorwyr yn mynd ar gyrsiau hyfforddiant yn rheolaidd					
Mae'r cyngor hwn yn annog ei glerc i gael hyfforddiant					
Mae'r cyngor hwn yn cefnogi'r syniad o greu cynllun achredu i gynghorau cymuned a thref					
Byddai ein cyngor yn elwa ar weithio tuag at gynllun achredu					

25) A oes gan eich cyngor gyllideb ar gyfer hyfforddiant?

Oes [Ewch i gwestiwn 26]

Nac oes [Ewch i gwestiwn 27]

26) Faint o arian sydd wedi'i neilltuo gan eich cyngor ar gyfer ei gyllideb hyfforddiant?

O ran y cwestiwn isod, mae **Pŵer Llesiant** yn cyfeirio at bŵer disgrisiwn sy'n rhoi'r gallu i awdurdodau lleol wneud unrhyw beth sydd, yn eu tyb nhw, yn debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol a/neu amgylcheddol eu hardal.

27) A fyddai eich cyngor yn mynd ati i ddefnyddio Pŵer Llesiant, pe bai'r pŵer hwnnw'n cael ei roi i gynghorau cymuned a thref?

Byddai, yn bendant [Ewch i gwestiwn 28]

Byddai, mae'n debyg [Ewch i gwestiwn 28]

Na fyddai, mae hynny'n annhebygol [Ewch i gwestiwn 29]

Na fyddai, yn bendant [Ewch i gwestiwn 29]

28) At ba ddibenion, yn eich tyb chi, y byddai eich cyngor yn defnyddio'r Pŵer Llesiant?

29) Beth fyddai'n atal eich cyngor rhag defnyddio'r Pŵer Llesiant?

Technoleg Gwybodaeth a chyfathrebu

30) A oes gwefan gan eich cyngor?

Oes [Ewch i gwestiwn 31]

Nac oes [Ewch i gwestiwn 33]

31) Rhowch gyfeiriad gwefan eich cyngor:

32) Pa rai o'r canlynol sy'n cael eu cyhoeddi ar eich gwefan? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

- Agendâu cyfarfodydd cyngor
- Cofnodion y cyngor
- Ymgynghoriadau
- Arolwg
- Crynodeb o gyllideb y cyngor
- Cynllun cymunedol
- Fforymau ar-lein
- Arall:

[Ewch i gwestiwn 34]

33) Pam nad oes gwefan gan eich cyngor? Ticiwch bob un o'r rhesymau perthnasol.

- Nid yw'n flaenoriaeth gan ein cyngor
- Ni fyddai'r gymuned yn ei defnyddio
- Ni all y cyngor fforddio gwefan
- Does neb ar gael i gynnal gwefan
- Arall:

34) Pa rai o'r canlynol sy'n wir am eich cyngor? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

Mae'r cyngor yn cael defnyddio cyfrifiadur(on) o eiddo'r cyngor

Mae'r cyngor yn cael defnyddio cyfrifiadur(on) o eiddo'r clerc

Mae'r cyngor yn cael defnyddio argraffydd(ion) o eiddo'r cyngor

Mae'r cyngor yn cael defnyddio argraffydd(ion) o eiddo'r clerc

Mae'r cyngor yn cael defnyddio'r rhyngrwyd

Ymgysylltu â chymunedau

35) I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae perthynas dda rhwng y cyngor â'r gymuned leol					
Mae'r gymuned yn barod iawn i gysylltu â'r cyngor i ofyn cwestiynau					
Pan fydd seddi ar y cyngor yn cael eu hysbysebu, rydym yn cael ymateb da gan y cyhoedd					
Mae'r cyngor yn deall yn glir beth yw anghenion y gymuned leol					

36) Fel arfer, faint o aelodau'r gymuned sy'n dod i gyfarfodydd y cyngor mewn mis?

37) O'r rhestr ganlynol, nodwch yn eu trefn y tri rheswm mwyaf cyffredin sy'n peri i aelodau'ch cymuned (gan gynnwys grwpiau cymuned) gysylltu â'ch cyngor.

Materion ariannu

Ymgyrchu

Problemau lleol

Cynllunio

Gwasanaethau'r cyngor (e.e. y neuadd gymunedol, ffeiriau, gwasanaethau llyfrgell)

Gwasanaethau awdurdodau unedol (e.e. casglu sbwriel)

Cynllunio Cydnerthu Cymunedol

38) O'r rhestr ganlynol, nodwch yn eu trefn, y tri dull mwyaf cyffredin sy'n cael eu defnyddio gan aelodau'r gymuned leol i gysylltu â'ch cyngor.

E-bost

Wyneb yn wyneb

Ffurflenni ar wefan y cyngor

Post

Ffôn

39) A oes gweithdrefn gwyno gan eich cyngor?

Oes

Nac oes

40) A oes gan eich cyngor bolisi o ymgysylltu â'r gymuned?

Oes [Ewch i gwestiwn 41]

Nac oes [Ewch i gwestiwn 42]

41) Faint o arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y polisi o ymgysylltu â'r gymuned?

42) A oes gennych ragor o sylwadau am y berthynas rhwng eich cyngor a'r gymuned. Nodwch y sylwadau hynny isod.

--

Ymgysylltu ag awdurdodau unedol

43) I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae perthynas dda rhwng ein cyngor a'r awdurdod unedol					
Mae'r awdurdod unedol yn helpu ein cyngor i gyflawni ei amcanion					
Mae'r awdurdod unedol yn ystyried sylwadau ein cyngor ynghylch ceisiadau cynllunio					
Nid yw ein cyngor a'r awdurdod unedol yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd					

Cytundebau yw siarteri sy'n amlinellu telerau'r berthynas rhwng yr awdurdodau lleol a'r cynghorau tref a chymuned.

44) Ydych chi'n gweithio tuag at sefydlu cytundeb siarter rhwng eich cyngor a'r awdurdod unedol?

Ydym [Ewch i gwestiwn 46]

Nac ydym [Ewch i gwestiwn 45]

45) Ydych chi'n gweithio tuag at sefydlu cytundeb siarter rhwng eich cyngor a'r awdurdod unedol?

46) A oes cytundeb lefel gwasanaeth rhwng eich cyngor a'r awdurdod unedol?

Oes [Ewch i gwestiwn 47]

Nac oes [Ewch i gwestiwn 48]

47) Pa wasanaethau sydd wedi'u trosglwyddo oddi wrth yr awdurdod unedol atoch chi? Nodwch y gwasanaethau isod.

48) A oes gan eich cyngor ar hyn o bryd unrhyw aelodau sydd wedi'u cyfethol ar bwyllgorau awdurdodau lleol?

Oes [Ewch i gwestiwn 49]

Nac oes [Ewch i gwestiwn 50]

49) Rhestrwch y pwyllgorau y maent wedi'u cyfethol arnynt.

50) Nodwch isod unrhyw sylwadau eraill sydd gennych chi am y berthynas rhwng eich cyngor a'r awdurdod unedol.

Ymgysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru

51) I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn deall gwaith y cynghorau cymuned a thref					
Pan fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori â ni, mae'n glir pam maen nhw'n gwneud hynny					
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cysylltu â ni yn ystod unrhyw gamau priodol yn y broses o lunio polisi					
Mae'r cyngor yn gwybod am y cymorth sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru					

52) Nodwch isod unrhyw sylwadau eraill sydd gennych chi am y berthynas rhwng eich cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

--

Diolch am gymryd rhan yn yr arolwg.